

Fy enw i yw Janet.

Fy rôl i yw rhifwr arbennig. Bydd rhifwr arbennig yn mynd i mewn i sefydliadau lle dydy'r bobl ddim yn byw mewn tŷ cyffredin. Rhan o fy rôl yn 2011 oedd ymweld â'r neuaddau preswyl yn Portsmouth, fel mae'n digwydd. Fy rôl i oedd cysylltu â rheolwyr y sefydliadau hyn a meithrin perthynas dda â nhw ac esbonio'r hyn oedd yn mynd i ddiwydd a pham.

Fe wnaethon ni godi stondinau lle roedd gennym ni daflenni a phosteri, a gallai pobl, myfyrwyr, stopio ac edrych ar y taflenni a gofyn am wybodaeth. Fe wnaethon ni hynny ar ein liwt ein hunain, fe benderfynon ni y byddai hynny'n beth da i'w wneud.

Felly, mae cryn dipyn o gyfrifoldeb yn cael ei roi i chi mewn gwirionedd, ac roedd hynny'n teimlo'n dda am ei fod yn teimlo fel bod gennych chi reolaeth dros y sefyllfa. Pan fyddwch chi'n llwyddo i gael yr holl ffurflenni cyfrifiad hyn yn ôl, mae'n deimlad da iawn.

Yr hyn a apeliodd ata i am weithio ar y cyfrifiad oedd y bri sydd ganddo fel astudiaeth. Rwy'n credu iddo ddechrau yn 1801, a'r unig dro chafodd e ddim ei gwblhau oedd yn ystod y rhyfel, yr Ail Ryfel Byd. Mae'n deimlad anhygoel bod yn rhan o rywbeth mor hanesyddol. Felly, pan gafodd y swydd ei chynnig i mi, gofynnwyd i mi fynd ar gwrs hyfforddi, ac roedd yr hyfforddiant yn para drwy'r dydd, bob dydd, yn cael hyfforddiant ar wahanol senarios, gan weithio mewn grwpiau ac edrych ar wahanol sefyllfaoedd y gallech chi ddod ar eu traws.

Roeddwn i'n meddwl bod yr hyfforddiant yn wych, ac fe wnaeth e wir fy mharatoi i ar gyfer y rôl, 100%. Cefais i syndod o weld beth roedd y rôl yn ei olygu mewn gwirionedd. Am wn i, roeddwn i wedi meddwl, wel, y cyfan sydd angen ei wneud yw cnocio ar ambell ddrws a chasglu ambell ffurflen, ond roedd yn llawer, llawer mwy na hynny, ac yn llawn boddhad.

Byddwn i wir yn ei argymhell. Gwnewch gais am swydd. Ewch amdani. Mae'n swydd wych. Mae'n ddiddorol iawn, a fydddech chi ddim yn difaru o gwbl.